# Gwybodaeth i Roddwyr sydd â Hemocromatosis Genetig

### Mae gen i Hemocromatosis Genetig, a gaf i roi gwaed?

Gellir derbyn pobl sydd â Hemocromatosis Genetig fel rhoddwyr gwaed sydd yn mynd drwy gamau therapiwtig a chynnal a chadw eu triniaeth, ar yr amod eu bod yn bodloni'r holl feini prawf dethol, heb unrhyw ddifrod i'w meinwe terfynol oherwydd gormod o haearn, ac nad ydynt ar unrhyw feddyginiaeth ar gyfer eu cyflwr.

Rydym yn cynghori rhoddwyr gwaed sydd â hemocromatosis a'r meddyg sy'n rheoli eu cyflwr, eu bod yn parhau i fod dan ofal ymgynghorydd yr ysbyty neu Feddyg Teulu, er mwyn monitro'r clefyd ac effeithiau tynnu gwaed. Mae Gwasanaeth Gwaed Cymru (GGC) yn casglu gwaed er lles cleifion, ac nid yw'n darparu unrhyw fath o driniaeth ychwanegol. Mae eich meddyg yn gyfrifol hefyd am roi gwybod i chi pa mor aml y dylech roi gwaed (gweler yr adran 'pa mor aml y gallaf roi gwaed?). Mae'n ofnadwy o bwysig eich bod chi'n rhoi gwaed ar yr adegau y mae eich meddyg yn eu hargymell.

### Sut ydw i'n dod yn rhoddwr gwaed?

Bydd eich Ymgynghorydd Ysbyty neu eich Meddyg Teulu wedi eich hatgyfeirio chi at Wasanaeth Gwaed Cymru os ydych chi wedi datgan yr hoffech chi gofrestru fel rhoddwr gwaed, neu os ydynt yn credu y byddai hyn yn addas i chi.

### Beth nesaf?

Unwaith y bydd aelod o dîm cymorth clinigol GGC wedi derbyn yr atgyfeiriad, byddwn yn cysylltu â chi i drefnu apwyntiad cyfleus mewn lleoliad sy'n addas i chi.

### Diogelwch Gwaed

Ein blaenoriaeth gyntaf yng Ngwasanaeth Gwaed Cymru ydy sicrhau bod y gwaed sy'n cael ei roi i gleifion mor ddiogel â phosib. Am y rheswm hwn, nid ydym yn casglu gwaed gan unrhyw un sydd ddim yn bodloni ein meini prawf ar gyfer rhoi gwaed. Mae hyn yn golygu bod posibiliad na allwn ni gymryd gwaed gennych chi. Dylech fod yn ymwybodol hefyd, y byddwn yn profi eich gwaed ar gyfer rhai pethau, fel yr ydym yn gwneud i bob rhoddwr, ac mae hyn yn cynnwys HIV; Hepatitis a Syffilis. Nid yw rhoddwyr sydd â hanes o heintiau a gludir yn y gwaed fel y rhain yn gymwys i roi gwaed.

O ran diogelwch gwaed, mae'n bwysig nad yw rhoddwyr sydd â Hemocromatosis Genetig (HG) yn teimlo o dan bwysau i roi gwaed pan nad ydynt yn addas. Bydd eich meddyg yn gwneud trefniadau eraill i dynnu gwaed gennych chi, os na allwch chi roi gwaed.

### Oes cyfyngiad o ran oedran ar gyfer rhoi gwaed?

Mae'n rhaid i'r holl roddwyr:

- fod yn 17 oed neu'n hŷn.
- os ydych chi'n 66 oed neu'n hŷn, mae'n rhaid eich bod chi wedi rhoi un rhodd o waed yn llwyddiannus, neu wedi tynnu gwaed cyn hynny.
- os ydych chi dros 70 oed, mae'n rhaid eich bod chi wedi rhoi gwaed neu dynnu gwaed yn llwyddiannus yn y ddwy flynedd ddiwethaf.

### Pa mor aml y gallaf roi gwaed?

Ar hyn o bryd, mae llawer o roddwyr sydd â hemocromatosis yn rhoi gwaed bob 12 wythnos neu fwy. Os yw'r bwlch hwn yn addas i reoli eich hemocromatosis, yna bydd y system bresennol yn eich cefnogi chi.

Ond efallai y bydd angen i rai rhoddwyr sydd â hemocromatosis roi gwaed yn fwy aml na hyn. Os yw eich meddyg yn argymell eich bod chi'n rhoi gwaed yn fwy aml, gallwn wneud trefniadau i chi wneud hyn, ond bydd yn hanfodol eich bod chi wedi bwcio apwyntiad ymlaen llaw cyn mynychu. Gall GGC dderbyn rhoddwyr sydd â Hemocromatosis Genetig, ond rhaid gadael bwlch o 2 wythnos o leiaf rhwng rhoi gwaed.

gwaedcymru.org.uk
0800 252266
welshblood.org.uk

**Atgyfeiriad meddygol unigolyn sydd â Hemocromatosis Genetig (HG) sy'n dymuno dod yn Rhoddwr Gwaed GGC**

| | |
|---|---|
| **Enw'r Claf:** | |
| **Teitl e.e., Mr, Mrs, Miss, Ms, Dr, Arall** | |
| **Rhif Ysbyty/Claf:** | |
| **Dyddiad Geni:** | |
| **Y dyddiad diwethaf y tynnwyd gwaed yn yr ysbyty:** | |

## Rwyf yn cadarnhau bod y claf uchod yn cydymffurfio â'r isod:

- yn dioddef o Hemocromatosis Genetig
- heb unrhyw gymhlethdodau sylweddol sy'n gysylltiedig â hyn, sy'n cynnwys nam ar y galon neu nam hepatig.
- ddim yn derbyn therapi celadu
- heb gael adwaith niweidiol i dynnu gwaed yn y gorffennol
- ddim yn Dyst Jehofa

**Y bwlch a argymhellir rhwng rhoi gwaed** *Rhowch dic*

| | | | |
|---|---|---|---|
| Bwlch **Llai na 12 wythnos** | Ie / Na | nodwch pa mor aml: .........). Uchafswm o 2 wythnos | |
| **12 wythnos neu fwy** | Ie / Na | | |

Fel ymarferydd meddygol yr unigolyn, rwyf yn deall y byddaf yn parhau i fod yn gyfrifol am fonitro eu cyflwr clinigol, gan gynnwys eu lefelau haearn.

Rwyf yn deall bod posibiliad na fydd y rhoddwr hwn yn gymwys i roi gwaed mewn clinig GGC ar adegau, ac efallai y bydd angen gwneud trefniadau tynnu gwaed eraill, a fydd yn parhau i fod yn gyfrifoldeb y clinigwr sy'n ei atgyfeirio.

| | |
|---|---|
| **Llofnod y Meddyg neu Nyrs Arbenigol sy'n atgyfeirio** | |
| **Rhowch eich enw mewn llythrennau bras:** | |
| **Ysbyty / Meddygfa:** | |
| **Dyddiad:** | |

gwaedcymru.org.uk
0800 252266
welshblood.org.uk

# Ffurflen Caniatâd Rhoddwr Gwasanaeth Gwaed Cymru (GGC)

| | |
|---|---|
| **Enw a theitl e.e Mr / Mrs / Ms / Miss / Dr / Arall:** | |
| **Cyfeiriad:** | |
| **Dyddiad geni:** | |
| **Rhif Rhoddwr (os yn gwybod):** | |
| **Rhif ffôn dydd:** | |

Rwyf yn deall bod GGC yn casglu gwaed er lles cleifion.

Rwyf yn cadarnhau y bydd rheoli fy Hemocromatosis yn parhau i fod yn gyfrifoldeb i fy meddyg neu ymgynghorydd ysbyty.

Os na allaf roi gwaed yn rheolaidd am ba bynnag reswm, rwyf yn deall y bydd angen i mi roi gwybod i'r meddyg sy'n rheoli fy Hemocromatosis.

Gan wybod popeth uchod, hoffwn ddod yn rhoddwr gwaed Gwasanaeth Gwaed Cymru.

| | |
|---|---|
| Llofnodwyd: | |
| Dyddiad: | |

**DYCHWELWCH Y FFURFLEN I:**

Nyrs Gofal Rhoddwyr Arbenigol,

Gwasanaeth Gwaed Cymru,

Heol Cwm Elái,

Tonysguboriau,

CF72 9WB.

Neu E-bostiwch: WBS.DonorCareNurses@wales.nhs.uk